Ms Sharon Ellis, Swyddog Rhaglen
Swyddfa’r Cyngor
Stryd y Jêl
Caernarfon LL55 1SH

Sesiwn Gwrandawiad 10 **Datganiad**
9.30 a.m. Dydd Mawrth, 27 Medi 2016

a) Cyfeirnod/Enw'r Safle - Tir yng Nghae'r Allt, Penrhosgarnedd, Bangor: Cyfeirnod Safle SP270

b) Statws Presennol - Tir amaethyddol; Defnydd arfaethedig - datblygiad tai ar raddfa fechan.

c) Maint y safle - llai na 0.4 hectar; nifer yr unedau - 4/5 tŷ wedi'u targedu at weithwyr ymddiriedolaeth yr ysbyty leol.

d) Dim, heblaw am gyfyngiadau cynllunio.

e) Amserlen y rhagdybir y cânt eu darparu - amhenodol ac yn ddibynnol ar ganiatâd cynllunio.

f) Credwn y dylid cynnwys y safle o fewn ffiniau'r Cynllun Datblygu.

g) Credwn fod ei eithrio yn andwyol i'r amcanion a bennwyd a'r polisïau a hyrwyddwyd gan yr awdurdodau perthnasol wrth greu'r Cynllun. E.e. byddai datblygu'r safle yn cael effaith niwtral neu ychydig iawn o effaith ar draffig ac mae gandi’r posibilrwydd o leddfu problemau presennol. Byddai darparu cartrefi o fewn pellter cerdded i'r gwaith nid yn unig yn annog ffordd o fyw mwy iachus ond hefyd byddai'n lleihau allyriadau gan drafnidiaeth.

h) Bydd cydlyniant a hyfywdra’r gymuned yn gwella oherwydd agosrwydd gweithle mawr a mwynderau eraill megis cludiant. Mae gan Benrhosgarnedd ganolfan cludiant dda ble mae bysus ar gael i bob rhan o Gymru. Mae'r datblygiad bychan hwn yn debygol o hyrwyddo defnydd y fath gyfleuster.

i) Yn ein barn ni, nid yw proses ddethol safleoedd y Cyngor yn cael ei hystyried yn un resymol na phriodol gan nad yw manteision y safle hwn wedi cael eu hystyried.

Bleddyn Hughes, R F Jones a Sylvia Jones